

*Rhaglen
Datblygu
Ymchwilwyr*

*Prifysgol
Aberystwyth*

2015 – 2016

RHAGLEN DATBLYGU YMCHWILWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

CYNNWYS

Tud.

1. Beth yw Datblygu Ymchwilwyr?	3
2. Strwythur Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA	5
3. Modiwlau Ymchwil a Ddarperir yn Ganolog	6
4. Canllawiau ar Bresenoldeb, Eithriadau a Chynnydd	7
5. Gweithdai Blynyddol i Raddedigion	8
6. Gweithdai Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy PA	8
Atodiad Un – Y Strwythur Modiwlar o fewn Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA	10

Manylion Cyswllt

Mae staff ar gael yn rhan-amser yn Ysgol y Graddedigion. Mae croeso i chi anfon e-bost at graduate.school@aber.ac.uk i wneud apwyntiad ag unrhyw un o'r staff.

Pennaeth Ysgol y Graddedigion:

Yr Athro Reyer Zwigelaar
Ffôn: 01970 622219. Mewnol 2219
E-bost: rrz@aber.ac.uk

Swyddog Datblygu Sgiliau:

Dr Ian Archer
Ffôn: 01970 621618. Mewnol 1618
E-bost: ina@aber.ac.uk

Gweinyddydd:

Mrs Jan Davies
Ffôn: 01970 622219. Mewnol 2219
E-bost: graduate.school@aber.ac.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein ar www.aber.ac.uk/cy/grad-school/docs-handbooks/


RHAGLEN DATBLYGU YMCHWILWYR

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Beth yw Datblygu Ymchwilwyr?

Yn 2001 cyhoeddodd y Cynghorau Ymchwil Ddatganiad Sgiliau ar y Cyd (*Joint Skills Statement, JSS*) a oedd yn disgrifio'r sgiliau y mae disgwyl i fyfyrwyr ymchwil eu cael neu eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o sgiliau ymchwil, sgiliau proffesiynol a sgiliau trosglwyddadwy. Ystyrir bod datblygu sgiliau o'r fath yn rhan hanfodol o'r profiad o fod yn fyfyrwr ymchwil uwchraddedig. Mae'r Datganiad Datblygu Ymchwilwyr a'r Fframwaith cysylltiedig (gweler isod) a gyhoeddwyd yn 2010 yn esblygiad o'r Datganiad Sgiliau ar y Cyd ac maent yn tynnu sylw at yr ystod o wybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a rhinweddau personol y mae'r Cynghorau Ymchwil yn disgwyl i ymchwilwyr eu datblygu yn ystod eu hyfforddiant.

Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr



Mae datblygu sgiliau ymchwil, sgiliau proffesiynol a sgiliau trosglwyddadwy o'r fath yn rhan bwysig o radd ymchwil. Mae angen ystod eang o sgiliau ar ymchwilwyr er mwyn gallu cwblhau gradd yn llwyddiannus, o sgiliau ymchwil cryf i sgiliau effeithiol ym maes cyfathrebu, TG a rheoli

gyrfa. Bydd datblygu'r sgiliau hyn nid yn unig yn helpu myfyrwyr i ddod yn ymchwilwyr mwy llwyddiannus, bydd hefyd yn help iddynt ddatblygu'r rhinweddau a'r cyneddfau angenrheidiol i gyflawni eu hamcanion gyrfaol.

Mae holl brifysgolion a chyrrff cyllido y DU bellach yn mynnu bod myfyrwyr ymchwil uwchraddedig yn datblygu set o sgiliau generig yn ystod eu hastudiaethau drwy fynychu cyrsiau hyfforddi wedi'u strwythuro a gweithgareddau hyfforddi a datblygu eraill addas. Nod ***Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth (PA)*** yw rhoi dulliau a sgiliau generig i fyfyrwyr a fydd yn ymateb i anghenion ymchwilwyr yn yr amgylchedd academaidd modern ac yn eu paratoi ar gyfer eu gyrfaeodded yn y dyfodol. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth greu a chynnal cymuned ymchwil uwch.

Mae Aberystwyth wedi ymrwymo i ddarparu lefel addas o hyfforddiant i'w holl fyfyrwyr uwchraddedig. Yn rhan o'r ymrwymiad hwn mae'r Brifysgol wedi sefydlu rhaglen sydd wedi'i chynllunio i helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gwblhau eu graddau ymchwil yn llwyddiannus a hefyd i wella eu cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae'n dechrau â digwyddiad cyflwyno, ac yna set o fodiwlau ymchwil a ddarperir yn ganolog, wedi'u hategu gan weithdai blynyddol i raddedigion a'u cefnogi gan ystod eang o weithdai, cyrsiau hyfforddi byr a gweithgareddau eraill a gynigir drwy'r Gweithdai Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy.

Mae gofyn i'r holl fyfyrwyr ddilyn elfennau penodol o'r rhaglen (ceir mwy o fanylion am hyn yn nes ymlaen), ond mae croeso i'r holl uwchraddedigion hefyd ymuno ag unrhyw agweddau ychwanegol ar y rhaglen, os ydynt yn teimlo y bydd hyn yn cyfoethogi eu set o sgiliau ymchwil. Mae ***Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA***, sy'n cael ei rhedeg dan nawdd Ysgol y Graddedigion, yn cael ei hategu gan ddarpariaeth Datblygu Ymchwilwyr benodol-i-bynciau a gynigir gan adrannau unigol, â'r nod o roi sgiliau ymchwil penodol i fyfyrwyr sy'n unigryw i'w disgyblaeth ymchwil benodol hwy ac i anghenion unigol y myfyriwr.

Mae ***Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA*** yn cael ei chyflwyno gan staff sy'n arbenigwyr yn eu disgyblaeth, sy'n dod ynghyd yn sgil ymrwymiad i greu amgylchedd ymchwil amlddisgyblaeth uwch. O ganlyniad i'r rhaglen hon bydd gan fyfyrwyr well meistrolaeth ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i lunio, cynnal ac ysgrifennu eu hymchwil o fewn y terfynau amser a bennwyd. Ers i'r rhaglen gael ei chyflwyno, mae cyfraddau cyflwyno yn PA wedi cynyddu'n sylweddol.

Ceir hefyd reswm galwedigaethol dros ddilyn y rhaglen hon. Bydd yn rhoi i chi sgiliau a chymwyseddau gwerthadwy, i'ch galluogi i symud o radd ymchwil i amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth.

Strwythur Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA

1) Rhaglen Gyflwyno

- Mae'n orfodol i'r holl fyfyrwyr ymchwil newydd llawn-amser (PhD ac MPhil) fynychu'r Rhaglen Gyflwyno, boed eu hymchwil yn cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Rhoddir anogaeth gref ar fyfyrwyr PhD ac MPhil rhan-amser i fod yn bresennol.

2) Modiwlau Ymchwil a Ddarperir yn Ganolog

- Mae gofyn i'r holl fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig llawn-amser fynychu elfennau penodol o'r rhaglen. Pennir y gofynion hyn yn unol â maes ymchwil myfyrwyr unigol.

3) Gweithdai Blynyddol i Raddedigion

- Gweithdy Graddedigion Blwyddyn Un – Ymddygiad Proffesiynol (**gorfodol**)
- Gweithdai Graddedigion Blwyddyn Dau – Ysgol Ysgrifennu
- Gweithdai Graddedigion Blwyddyn Tri – Tu Hwnt i'r PhD

4) Gweithdai Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy

Mae holl brifysgolion a chyrrff cyllido y DU bellach yn mynnu bod myfyrwyr ymchwil uwchraddedig yn datblygu set o sgiliau generig yn ystod eu hastudiaethau drwy fynychu cyrsiau hyfforddi wedi'u strwythuro a gweithgareddau hyfforddi a datblygu eraill addas. I helpu i gwrdd â'r gofynion sgiliau hyn, mae **Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth (PA)** yn cynnig ystod eang o weithdai, cyrsiau hyfforddi byr a gweithgareddau eraill sydd wedi'i llunio i helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i gwblhau eu graddau ymchwil yn llwyddiannus a hefyd i wella eu cyflogadwyedd yn y dyfodol, boed o fewn y byd academiaidd neu oddi allan iddo. Gellir canfod y manylion ar <http://www.aber.ac.uk/en/grad-school/res-develop/pg-skills-training/>

5) Monitro Ymchwil

Mae Pwyllgorau Monitro Ymchwil yr Athrofeydd yn gyfrifol am oruchwylio'r prosesau canlynol: canfod anghenion hyfforddiant sgiliau ymchwil a sgiliau trosglwyddadwy myfyrwyr unigol, gan gynnwys anghenion hyfforddiant uwch; sicrhau bod materion iechyd a diogelwch a materion moesegol sy'n codi yn sgil ymchwil y myfyrwyr yn cael eu nodi; monitro hyfforddiant sgiliau ymchwil a sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys hyfforddiant uwch, a'r broses Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Bydd Pwyllgorau Monitro Ymchwil yr Athrofeydd yn llunio adroddiadau ac argymhellion ar gynnydd i Bwyllgor Monitro Ymchwil y Brifysgol. Am ragor o wybodaeth am fonitro, gweler llawlyfrau yr Adran/Athrofa a'r Cod Ymarfer i Fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig.

Modiwlau Ymchwil a Ddarperir yn Ganolog

Disgwylir i bob myfyriwr **PhD llawn-amser** gwblhau o leiaf **40 credyd** o hyfforddiant ymchwil a ddarperir gan y sefydliad yn ystod eu dwy flynedd gyntaf o astudio. Disgwylir y bydd o leiaf 20 credyd yn cael eu cwblhau yn y flwyddyn gyntaf, a'r gweddill yn yr ail flwyddyn.

Disgwylir i bob myfyriwr **MPhil llawn-amser** gwblhau o leiaf **10 credyd** o hyfforddiant ymchwil a ddarperir gan y sefydliad yn ystod eu blwyddyn gyntaf o astudio.

Yn y lle cyntaf mae gofyn i fyfyrwr ymchwil uwchraddedig drafod maes eu hymchwil gyda'u harolygydd / adran, a phenderfynu pa gylch gorchwyl sy'n berthnasol i'w hymchwil hwy. Wedyn mae'n **rhaidd** i fyfyrwr drafod gyda'u harolygwyr pa fodiwlau fyddai'r rhai mwyaf addas cyn cofrestru arnynt.

Mae'n rhaid i fyfyrwr PhD **cylch gorchwyl y Gwyddorau Cymdeithasol** (ESRC) astudio dau **Fodiwl Craidd (gofyniad gorfodol)** yn ogystal ag un modiwl pellach, wedi'i ddewis o'r rhestr lawn isod (gan sicrhau fod cyfanswm y credydau yn cyfateb ag o leiaf 40)

Modiwlau Craidd ar gyfer myfyrwr PhD cylch gorchwyl y Gwyddorau Cymdeithasol (gofyniad gorfodol)

- Quantitative Data Collection and Analysis (PGM1010)
- Qualitative Data Collection and Analysis (PGM1710 neu PGM1120)

Disgwylir i fyfyrwr PhD **cylch gorchwyl y Celfyddydau a'r Dyniaethau** (AHRC) a **chylch gorchwyl y Gwyddorau** (BBSRC, EPSRC, MRC, NERC, STFC) **llawn amser** ddewis 40 credyd o'r rhestr isod. Ar hyn o bryd mae Ysgol y Graddedigion yn rheoli 25 o fodiwlau ymchwil canolog.

- Research Skills and Personal Development (PGM0120) (Fersiwn 10 credyd PGM2210)
- Sgiliau Ymchwil a Datblygiad Personol (MOR0120)
- Principles of Research Design (PGM0210)
- Ways of Reading (PGM0410)
- Dulliau Darllen (MOR0510)
- Advanced Quantitative Data Analysis Techniques (PGM0910)
- Quantitative Data Collection and Analysis (PGM1010)
- Qualitative Data Collection and Analysis (PGM1120) (Fersiwn 10 credyd PGM1710)
- Manuscript Skills: Post Medieval Palaeography and Diplomatic (PGM1210)
- Using Manuscript Sources for Medieval Studies: Palaeography, Diplomatic and Context (PGM1420)
- Research Skills and Personal Development for Scientists (PGM1520) (Fersiwn 10 credyd PGM2310)
- Public Engagement and Impact (PGM1610)
- Ways of Working (PGM1810)
- Leadership for Researchers (PGM1910)
- Political Research, Philosophy, Methods and Applications (IPM2120)
- Research Skills in Mathematics, Physics and Computer Science (PGM2010)
- Statistics for Experimental Scientists (PGM2110)
- Research Seminar Skills in the Life Sciences (PGM2410)
- Grants Development Workshops (PGM2510)
- Reading and Writing Development Group (PGM2610)
- Theoretical Foundations of Research In Law and Criminology (PGM2710)
- Skills in Bioinformatics for Biologists (PGM2810)

Gellir ategu'r ddarpariaeth sylfaenol hon ag elfennau eraill o **Raglen Datblygu Ymchwilwyr PA** ac â hyfforddiant ymchwil adrannol a hyfforddiant ymchwil penodol-i-bynciau sydd wedi'i deilwra i anghenion myfyrwr unigol. Bydd manylion y rhan hon o'r Rhaglen Hyfforddiant yn cael eu darparu gan y cydlynnydd uwchraddedigion yn adran y myfyriwr.

Gellir ymgymryd â'r hyfforddiant hwn ar unrhyw adeg yn ystod y rhaglen hyfforddiant PhD, pan ystyrir ei fod fwyaf addas. Bydd Adrannau yn gyfrifol am nodi anghenion Datblygu Ymchwilwyr uwch eu myfyrwyr ymchwil a **gallant** ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ymchwil ddilyn elfennau o hyfforddiant uwch.

Canllawiau ar Bresenoldeb, Cynnydd ac Eithriadau

Presenoldeb

Mae'n orfodol i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar fodiwlau hyfforddiant ymchwil canolog fod yn bresennol yn yr holl sesiynau ar gyfer y modiwlau hynny. Llenwir cofrestr ym mhob sesiwn ac mae presenoldeb yn cael ei fonitro gan Ysgol y Graddedigion. Bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn dilyn hynt myfyrwyr sy'n absennol heb reswm da (megis salwch) ac yn rhoi gwybod amdanynt i'w hadrannau. Caiff absenoldeb dro ar ôl tro heb reswm da ei ystyried wrth fonitro ymchwil a **gall arwain at fethiant y myfyriwr i symud ymlaen i Ran 2 neu i flwyddyn nesaf yr astudio neu ei wahardd o'r Brifysgol.**

Cynnydd – Marciau, Pasio a Methu

Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr PhD llawn-amser (nad ydynt eisoes wedi dilyn y modiwlau hyn yn rhan o gwrs Meistr Hyfforddiant Ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth, neu wedi cael eu heithrio) basio'r modiwlau gofynnol cyn y caniateir iddynt symud ymlaen i flwyddyn nesaf y rhaglen PhD.

Rhaid pasio unrhyw elfennau modiwlau uwch neu ychwanegol o **Raglen Datblygu Ymchwilwyr PA** a nodwyd yn benodol ac/neu y cytunwyd arnynt er mwyn gallu symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf o astudio. Bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu gan Bwyllgor Monitro Ymchwil y Brifysgol ar ddiwedd pob blwyddyn yn y rhaglen PhD, cyn y caniateir iddynt symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf o astudio. Os methir modiwl, bydd angen ailgyflwyno, a gosodir terfyn amser newydd ar gyfer cyflwyno. **Bydd methiant pellach yn golygu y bydd y Bwrdd Astudiaethau Datblygu Ymchwilwyr yn gwneud argymhelliad i Bwyllgor Monitro Ymchwil y Brifysgol a gall hyn arwain at fethu symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf o astudio (PhD), neu wahardd o'r Brifysgol.**

Rhoddir marciau i waith a asesir. Yn y modiwlau Hyfforddiant Ymchwil sy'n cael eu darparu'n ganolog, 50% yw'r marc pasio a 70% yw'r marc rhagoriaeth.

Mae'n bosibl y bydd myfyriwr y mae ei gynnydd yn anfoddhaol yn cael ei atal rhag symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf o astudio, yn gorfod cymryd camau i adfer y sefyllfa cyn i'w draethawd ymchwil gael ei arholi, neu'n gorfod tynnu'n ôl o'r Brifysgol am gyfnod neu yn barhaol.

Yn achos yr holl fyfyrwyr Meistr a ddysgir trwy gwrs sy'n dilyn modiwlau o'r rhaglen, bydd eu sgôr am y modiwlau hyn yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm y marc terfynol am eu gradd Meistr (oni bai bod y modiwlau Hyfforddiant Ymchwil yn elfennau craidd o'r radd).

Eithriadau

Pan fydd myfyriwr ymchwil uwchraddedig o'r gwyddorau cymdeithasol, sydd fod i gofrestru ar gyfer modiwlau craidd gorfodol, ond sydd eisoes wedi pasio modiwlau hyfforddiant ymchwil **cyferth** ar lefel uwchraddedig mewn Prifysgol neu Sefydliad Addysg Uwch arall, mae'n bosibl iddo wneud cais i gael ei eithrio (**Ni all myfyrwyr gradd Meistr Hyfforddiant Ymchwil a myfyrwyr Meistr trwy Gwrs (gan gynnwys Paratoi Ymchwil) wneud cais i gael eu heithrio.**) Ym mhob achos **mae'n rhaid** i geisiadau i eithrio gael eu cyflwyno i Bennaeth Ysgol y

Graddedigion, sydd â chyfrifoldeb am yr holl benderfyniadau ar eithrio o fodiwlau Hyfforddiant Ymchwil. **Mae'n rhaid** i chi ddefnyddio'r *Ffurflen Eithrio rhag modiwl Hyfforddiant Ymchwil* (sydd ar gael ar weddalennau Ysgol y Graddedigion ar <http://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms/>) i esbonio pam yr ydych yn credu y dylech gael eich eithrio rhag rhai modiwlau. Mae'n rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan eich arolygydd a Chyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yr Athrofa ac yna ei hanfon at Ysgol y Graddedigion i'w chymeradwyo. Rhaid i geisiadau am eithrio gael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd ar ôl dechrau **Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA** a heb fod yn hwy na phythefnos ar ôl dechrau'r modiwl dan sylw.

Dewis Ymuno

Os ydych am ddewis ymuno â'r modiwlau'n wirfoddol, dylech ddefnyddio'r *Ffurflen Ymuno â Modiwl Hyfforddiant Ymchwil* (sydd ar gael ar weddalennau Ysgol y Graddedigion ar <http://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms/>). Dylech anfon y ffurflen cyn gynted ag y bo modd, fel y gellir cyfrifo'r niferoedd ar gyfer y modiwlau ymhell cyn dechrau'r modiwlau. Os byddwch, ar ôl penderfynu ymuno, yn penderfynu peidio â mynychu'r modiwl dan sylw, rhowch wybod i Weinyddyd Ysgol y Graddedigion.

Gweithdai Blynyddol i Raddedigion

Mae'r rhain yn weithdai blynyddol i fyfyrwyr PhD.

Blwyddyn 1 Ymddygiad Proffesiynol – gorfodol ar gyfer holl uwchraddedigion ymchwil llawn-amser (Mphil a PhD)

Bydd y gweithdy hwn yn cael ei gynnal ar ddechrau Blwyddyn 1, yn dod â holl garfan yr Uwchraddedigion ymchwil ynghyd, ac yn canolbwyntio ar sgiliau **Moeseg Ymchwil**, **Ystyriaethau Ysgrifennu** a **Dysgu**. Bydd hyn yn cynnwys moeseg, ystyriaethau llên-ladrad, cyfrinachedd, hawlfraint, gwarchod data, rhyddid gwybodaeth yn y broses ymchwil ac ysgrifennu.

Blwyddyn 2 Ysgolion Ysgrifennu Ymchwil

Nod y rhaglen ysgrifennu ymchwil yw dod â myfyrwyr PhD o bob rhan o'r Brifysgol at ei gilydd i drafod agweddau ar ysgrifennu ac ymchwil. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai yn seiliedig ar drafod cyflwyniadau a sesiynau tiwtorial. Bydd y myfyrwyr yn cael cyfle i drafod cynnydd eu gwaith gyda thîm o arbenigwyr ysgrifennu ac i gyfrannu at y drafodaeth o'u profiad eu hunain. Mae'r dull rhannu profiad hwn yn cydnabod arbenigedd pawb sy'n cymryd rhan a disgwylir y bydd pob cyfraniad o gymorth wrth greu cynlluniau gweithredu ar gyfer cwblhau ymchwil.

Blwyddyn 3 Tu Hwnt i'r PhD

Cynigir nifer o weithdai dewisol i Flwyddyn 3. Yn y gorffennol rydym wedi trafod agweddau fel: Cyfeiriadau gyrfaol anacademaidd; Llwybrau mewn i'r byd academaidd; Trefnu gweithdai/cynadleddau yn llwyddiannus; Paratoi ar gyfer eich viva (cyn/yn ystod/ar ôl); Technegau CV, ffurflenni cais a chyfweld; Rhwydweithio ac adeiladu eich brand personol; a Sut i gael cyllid ymchwil (4 gweithdy cysylltiedig yn arwain at gais am grant). Os oes gennych awgrymiadau ar gyfer gweithdai ychwanegol e-bostiwrch Ysgol y Graddedigion os gwelwch yn dda.

Gweithdai Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy PA

Bellach mae holl brifysgolion a chyrrff cyllido y DU yn mynnu bod myfyrwyr ymchwil uwchraddedig yn datblygu set o sgiliau cyffredinol yn ystod eu hastudiaethau trwy fynychu cyrsiau hyfforddi sydd wedi'u strwythuro a gweithgareddau hyfforddi a datblygu eraill addas. Mae'r Cynghorau Ymchwil yn disgwyl i fyfyrwyr PhD sy'n cael eu noddi wneud 10 diwrnod y flwyddyn

o hyfforddiant ym maes sgiliau trosglwyddadwy. Anogir pob myfyriwr PhD yn PA i wneud 30 diwrnod o hyfforddiant yn ystod eu cynllun PhD ar ei hyd.

Er mwyn eich cynorthwyo i fodloni'r gofynion hyn o ran sgiliau, mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy trwy gyfrwng amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi byr a gweithgareddau eraill sydd wedi'u llunio i'ch cynorthwyo i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau eich gradd ymchwil yn llwyddiannus a hefyd i wella eich cyfle o ganfod swydd yn y dyfodol, boed yn y byd academiaidd neu oddi allan iddo. Mae'r cyrsiau a gynigir wedi'u dosbarthu'n grwpiau yn unol â'r sgiliau a nodir ym Mharthau'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (gweler y tabl ar dudalen 3).

- Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol
- Effeithiolrwydd Personol
- Llywodraethu a Threfnu Ymchwil
- Ymgysylltu, Dylanwad ac Effaith

Mae'r cyrsiau Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy yn rhad ac am ddim ac maent ar gael i'r holl fyfyrwyr ymchwil llawn amser a rhan-amser, waeth pwy sy'n eu noddi a maes pa Gyngor Ymchwil bynnag sy'n berthnasol iddynt. Am ragor o wybodaeth edrychwch ar y wefan ar <http://www.aber.ac.uk/en/grad-school/res-skills-training/pg-skills-training/>.

ATODIAD UN

Y STRWYTHUR MODIWLAR O FEWN Y RHAGLEN DATBLYGU YMCHWILWYR

Caiff y modiwlau sy'n rhan o *Raglen Datblygu Ymchwilwyr PA* eu trefnu yn y fath fodd fel y gallant, os oes angen, gael eu hymgorffori fel elfennau mewn rhaglen astudio uwchraddedig arall e.e. cwrs Meistr Hyfforddiant Ymchwil. Mae modiwlau yn cario credydau a gellir hefyd roi credyd i fodiwlau a drefnir ar lefel adrannol. Mae'r strwythur o fodiwlau a chredydau yn cael ei seilio ar:

(a) ddyraniad o 180 o gredydau ar gyfer un flwyddyn academiaidd lawn o astudio'n llawn-amser i fyfyrwr uwchraddedig; a

(b) patrwm safonol PA, lle mae pob modiwl 10-credyd yn cynrychioli 100 o oriau dysgu tybiedig. Mae hyn yn cynnwys amser cyswllt, darllen a pharatoi gwaith sy'n cael ei gyflwyno.

Ar hyn o bryd mae Ysgol y Graddedigion yn rheoli 25 o fodiwlau ymchwil canolog.

1. Research Skills and Personal Development (PGM0120, PGM2210)

Nod y modiwl hwn yw rhoi sylfaen eang o wybodaeth i fyfyrwyr ymchwil yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol am amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ymchwil. Bydd y modiwl yn trafod datblygiad personol, gan gynnwys sgiliau trafod a rhwydweithio, ysgrifennu academiaidd, rheoli ymchwil, gweithio mewn tîm, ac ysgrifennu a chyflwyno papur mewn cynhadledd. Bydd sgiliau Technoleg Gwybodaeth, yn gyffredinol ac yng nghyd-destun eu cymhwyso i ymchwil, yn cael eu cynnwys hefyd.

2. Sgiliau Ymchwil a Datblygiad Personol (MOR0120)

Nod y modiwl hwn yw rhoi i fyfyrwyr ymchwil ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ymchwil. Bydd yn ymdrin â datblygiad personol, gan gynnwys sgiliau trafod a rhwydweithio, rheoli ymchwil, gweithio mewn tîm ac ysgrifennu a chyflwyno papur cynhadledd. Bydd hefyd yn ymdrin â sgiliau TG, yn bennaf mewn cyd-destun ymchwil, a materion penodol sy'n codi wrth ymgymryd ag ymchwil yn y Gymraeg, yn ddwyieithog neu'n amlieithog.

3. Principles of Research Design (PGM0210)

Nod y modiwl hwn yw dysgu myfyrwyr ymchwil i ddeall egwyddorion sylfaenol cynllun a strategaeth ymchwil. Bydd yn eu galluogi i ddangos eu gallu: i ganfod a ffurfio eu cwestiynau ymchwil yn glir ac yn gryno, eu dadansoddi neu eu rhannu'n gyfresi o is-gwestiynau perthnasol, a, lle bo hynny'n briodol, llunio damcaniaethau y gellir eu profi; esbonio pam mae eu cwestiynau ymchwil yn arwyddocaol yng nghyd-destun is-feysydd eu disgyblaeth/ymchwil, pa fath o gwestiynau ydynt yn epistemolegol, a pha fathau o ddata/deunyddiau neu seiliau dadleuaeth sydd eu hangen i ymdrin â'u cwestiynau; ac i gynhyrchu cynllun gweithredu realistig, gan roi sylw i unrhyw faterion cyfreithiol a moesegol y gallent ddod ar eu traws yn eu prosesau ymchwil.

4. Ways of Reading (PGM0410)

Cyflwyniad yw'r modiwl deuddydd hwn i wahanol ddulliau o ddehongli a dadansoddi testunau a mathau o ddisgwrs, gan gynnwys dogfennau hanesyddol a chyfoes, cyfryngau print a darlledu, deunydd llenyddol a thestunau cyfreithiol ac addysgol. Gan fod ffurfiau cyfoes ar gyfathrebu'n mynd yn fwyfwy amlfoddol, mae'r modiwl yn trafod agweddau geiriol a gweledol ar destunau ac yn ystyried rhai o'r ffyrdd y mae'r arwyddion geiriol a gweledol yn gysylltiedig â'i gilydd mewn gwahanol fathau o destunau a gwahanol sianelau cyfathrebu. Nod y modiwl yw galluogi myfyrwyr

i ymwneud â gwahanol ddulliau o ddadansoddi testun a disgwrs ac i ddatblygu dealltwriaeth o'r modd y mae'r dulliau hyn wedi'u hymgorffori mewn traddodiadau penodol o greu damcaniaeth.

5. Dulliau Darllen (MOR0510)

Modiwl deuddydd dwys yw hwn sy'n rhoi cyflwyniad i wahanol ddulliau o ddehongli a dadansoddi testunau a gwahanol fathau o ddisgwrs, gan gynnwys dogfennau hanesyddol a chyfoes, y cyfryngau a'r gair llafar, deunydd llenyddol a thestunau cyfreithiol. Gan fod cyfathrebu cyfoes yn gynyddol amlfodd o ran ffurf, rhoddir sylw i'r dimensiynau gweledol a llafar mewn testun a'r cydgysylltiadau rhwng y gweledol a'r llafar mewn gwahanol fathau o destun a ffurfiau o gyfathrebu. Nod y modiwl yw galluogi myfyrwyr i weithio gyda gwahanol ddulliau o ddadansoddi testunau a disgwrsiau. Byddant hefyd yn deall sut mae'r dulliau hyn yn perthyn i wahanol draddodiadau damcaniaethol.

6. Advanced Quantitative Data Analysis Techniques (PGM0910)

Nod y modiwl hwn yw rhoi gwybodaeth eang i fyfyrwyr am amrywiaeth o sgiliau methodolegol a dadansoddi y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ymchwil. Mae'r modiwl wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd eisoes wedi astudio technegau meintiol sylfaenol. Mae'r modiwl hwn yn trafod methodolegau ystadegol pellachy gellir eu defnyddio yng nghyd-destun astudiaeth PhD yn y gwyddorau.. Gall hyn gynnwys dadansoddi cyfresi amser uwch, methodoleg astudio digwyddiadau a mesur perfformiad. Bydd sesiynau ymarferol yn dysgu myfyrwyr sut i ddefnyddio'r technegau, gan gynnwys sut i ddefnyddio'r meddalwedd perthnasol.

7. Quantitative Data Collection and Analysis (PGM1010)

Nod y modiwl hwn yw rhoi gwybodaeth eang i fyfyrwyr am amrywiaeth o sgiliau methodoleg a dadansoddi y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ymchwil. Yn ogystal â dysgu'r hanfodion i fyfyrwyr am egwyddorion sylfaenol methodoleg ymchwil ansoddol, bydd y modiwl yn (i) edrych ar sut y gellir disgrifio'r data, (ii) cyflwyno amrywiaeth o brofion ystadegol sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd, a (iii) archwilio ystyr y canlyniadau o safbwynt y cwestiwn ymchwil a osodir. Bydd y modiwl yn cynnwys darlithoedd, yn ogystal â gwaith ymarferol yn y labordy gan ddefnyddio pecyn ystadegol priodol.

8. Qualitative Data Collection and Analysis (PGM1120 a PGM1710)

Nod y modiwl hwn yw rhoi gwybodaeth eang i fyfyrwyr am amrywiaeth o sgiliau ansoddol, yn fethodolegol a dadansoddi, y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ymchwil. Mae'r cwrs wedi'i lunio i ddysgu'r hanfodion i fyfyrwyr am egwyddorion sylfaenol methodoleg ymchwil ansoddol. Bydd yn (i) cyflwyno i'r myfyrwyr y prif ddulliau o gasglu a dadansoddi data ansoddol, (ii) dangos sut mae data ansoddol yn cael ei adeiladu a'i ddehongli'n ymarferol gan yr ymchwilydd a (iii) meithrin dealltwriaeth o'r ystyriaethau ymarferol ac epistemolegol sy'n codi wrth gasglu data ansoddol. Bydd y pynciau yn cynnwys cynllunio holiaduron, technegau cyfweld, cynllunio arolygon, dulliau o ddadansoddi data ansoddol a dulliau cymysg.

9. Manuscript Skills: Post Medieval Palaeography and Diplomatic (PGM1210)

Mae'r modiwl hwn yn ystyried datblygiad hanesyddol llawysgrifen (palaeograffeg) ym Mhrydain rhwng tua 1450 a tua 1800, nodweddion mathau penodol o lawysgrifen, egwyddorion trawsgrifio a dulliau golygyddol eraill, a datblygiad ffurf gyffredin mewn dogfennau ffurfiol (diplomateg). Datblygir sgiliau ymarferol a thechnegol mewn darllen a thrawsgrifio, gan roi'r ddamcaniaeth ar waith yn ymarferol drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o lawysgrifau o dan arweiniad gofalus.

10. Using Manuscript Sources for Medieval Studies: Palaeography, Diplomatic and Context (PGM1420)

Er mwyn gallu darllen, dehongli a thrawsgrifio'r ffynonellau a ysgrifennwyd â llaw sydd wedi goroesi o'r cyfnodau canoloesol a modern cynnar, mae'n rhaid i fyfyrwyr ac ymchwilyddwyr gael dealltwriaeth dda o'r mathau penodol o lawysgrifen a ddefnyddid yn y cyfnodau hynny yn ogystal

â deall bod gan ddogfennau ffurfiol elfennau arwyddocaol o ‘ffurf gyffredin’ sy’n rheoli eu strwythur a’u geiriad cyffredinol ac sy’n adlewyrchu eu swyddogaethau o fewn y cyd-destun gweinyddol y’u lluniwyd ynddo. Mae angen tri maes o wybodaeth i ymdrin â’r materion hyn: palaeograffeg (astudio hen lawysgrifen), diplomateg (astudio ffurf a strwythur dogfennau swyddogol), a hanes gweinyddol (sy’n rhoi’r cyd-destun y crëwyd dogfennau a thestunau eraill ynddo). Mae’r modiwl hefyd yn rhoi cymorth ar gyfer darllen a deall Lladin ac ieithwedd hynafol.

DS: Bydd myfyrwyr nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am Ladin yn gorfod cofrestru ar gyfer y modiwl HYM2120 *Latin for Postgraduates*, a mynychu’r sesiynau perthnasol.

11. Latin for Postgraduates (HYM2120)

Mae’r modiwl hwn wedi’i anelu at y myfyrwyr hynny nad oes ganddynt lawer o wybodaeth, neu ddim gwybodaeth o gwbl, am Ladin, ac mae’n cael ei ddysgu dros ddau semester. Yn y semester cyntaf, bydd y pwyslais ar ramadeg, cystrawen a geirfa Ladin sylfaenol. Y syniad yw rhoi digon o gefndir ichi fel y byddwch, gydag arweiniad llyfr gramadeg a geiriadur, yn gallu ymdrin â ffynonellau cynradd â rhywfaint o hyder. Yn yr ail semester byddwch yn symud ymlaen o drafod yr hanfodion i ymdrin â ffynonellau cynradd yn yr iaith wreiddiol. Y nod yw dangos sut gallwch roi’r strwythurau ac egwyddorion Lladin sylfaenol y gwnaethoch eu dysgu yn ystod y semester cyntaf ar waith. Bydd y modiwl hwn yn eich dysgu sut i adnabod yr elfennau a ddefnyddir i lunio testun a bydd hyn, yn ei dro, yn ei gwneud hi’n llawer haws ichi gyfieithu a deall deunyddiau Lladin. Bydd hefyd yn caniatáu ichi gael yr ymarfer a magu’r hunanhyder y bydd arnoch eu hangen i wneud gwaith ymchwil uwch ym maes hanes canoloesol, a hefyd i ymdrin â’r mathau o ddeunyddiau y byddwch yn debygol o ddod ar eu traws wrth weithio ym maes archifau, amgueddfeydd neu’r diwydiant treftadaeth.

12. Research Skills and Personal Development for Scientists (PGM1520, PGM2310)

Nod y modiwl hwn yw rhoi i fyfyrwyr ymchwil yn y Gwyddorau wybodaeth eang am amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau ymchwil. Bydd y modiwl yn trafod datblygiad personol, gan gynnwys sgiliau trafod a rhwydweithio, ysgrifennu academiaidd, rheoli ymchwil, gweithio mewn tîm ac ysgrifennu a chyflwyno papur mewn cynhadledd. Mae’r modiwl hefyd yn cwmpasu sgiliau TG, yn gyffredinol ac wedi’u cymhwyso i ymchwil.

13. Public Engagement and Impact (PGM1610)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae RCUK wedi rhoi pwyslais ychwanegol ar bwysigrwydd ymwneud â’r cyhoedd ac effaith gyhoeddus ymchwil a bydd y modiwl hwn yn caniatáu i fyfyrwyr PhD archwilio agweddau allweddol. Cynhelir y modiwl mewn dwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn weithdy dwys diwrnod o hyd. Bydd hwn yn dechrau gyda nifer o sesiynau a “ddysgir” er mwyn cyflwyno agweddau ar ymwneud â’r cyhoedd ac effaith gyhoeddus. Dilynir y sesiynau a “ddysgir” hyn gan sesiwn ymarferol â’r nod o greu deunydd i ymwneud â’r cyhoedd (agweddau testun a gweledol). Yn sesiwn olaf y gweithdy cyntaf bydd canlyniadau’r sesiwn flaenorol yn cael eu cyflwyno a’u trafod. Bydd ail ran y modiwl yn gyfraniad i ddigwyddiad cyswllt â’r cyhoedd. Y drefn arferol ar gyfer hyn fydd arddangosfa i’r cyhoedd yn gyffredinol (e.e. yng Nghanolfan y Celfyddydau neu’r Hen Goleg), â’r disgwyliad y bydd pob myfyriwr PhD yn cyfrannu arddangosfa weledol/testun ac yn ei chyflwyno yn y derbyniad agoriadol.

14. Qualitative Data Collection and Analysis (PGM1710)

Mae’r modiwl yma’n fersiwn 10 credyd o PGM1120. Ei nod yw rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am amrywiaeth o sgiliau ansoddol, yn fethodolegol a dadansoddol, â’r sesiynau’n cael eu dewis o ddetholiad o bynciau, yn dibynnu ar anghenion y myfyriwr. Mae’r cwrs wedi’i lunio i ddysgu’r hanfodion i fyfyrwyr am egwyddorion sylfaenol methodoleg ymchwil ansoddol. Bydd yn (i) cyflwyno i’r myfyrwyr rai dulliau o gasglu a dadansoddi data ansoddol, (ii) yn dangos sut mae data ansoddol yn cael ei adeiladu a’i ddehongli’n ymarferol gan yr ymchwilydd a (iii) yn meithrin

dealltwriaeth o'r ystyriaethau ymarferol ac epistemolegol sy'n codi wrth gasglu data ansoddol. Gall y pynciau gynnwys cynllunio holiaduron, technegau cyfweld, cynllunio arolygon a dulliau o ddadansoddi data ansoddol.

15. Ways of Working (PGM1810)

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno myfyrwyr i amrywiaeth o feysydd ymchwil, methodolegau a deilliannau sy'n berthnasol i astudiaethau uwchraddedig annibynnol o fewn i fframwaith ehangach ymchwil ysgolheigaidd yn yr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithyddiaeth a'r Celfyddydau Creadigol. Bydd y modiwl yn rhoi cipolwg i fyfyrwyr ar ffyrdd penodol o weithio ar lefel uwchraddedig yn ogystal ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhyngweithio a'r cysylltiadau rhwng meysydd pwnc sy'n wahanol ac eto'n gyffredin. Gall y meysydd hyn gynnwys gwleidyddiaeth cyfieithu yn ogystal â'r defnydd mwy ymarferol o gyfieithu, cyfieithu yn seiliedig ar ymarfer rhwng dulliau (testun/delwedd/gwrthrych ac ati) a'r cyfryngau (ffilm/print/perfformiad ac ati) a hefyd rhwng y gwahanol gyfnodau hanesyddol. Mae astudio'r Diwydiannau Creadigol a Chynhyrchu Creadigol yn elfen bwysig arall o ymchwil ysgolheigaidd yn yr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithyddiaeth a'r Celfyddydau Creadigol, yn cynnwys astudio datblygiadau digidol a thechnegol o ran eu dylanwad ar brosesau presennol cynhyrchu creadigol mewn theatr, ffilm, teledu ac astudiaethau llenyddol ac iaith. Mae'r Athrofa hefyd yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol a chynhyrchu diwylliannol, a'r cwestiynau sy'n ymwneud â derbyn a throsglwyddo treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, swyddogaeth cynhyrchu diwylliannol ar y cyd yn y cyfnewid diwylliannol creadigol hwn a phynciau'r cof, traddodiad, cynrychiolaeth, adfywio ac adnewyddu. Mae Tirwedd a'r Amgylchedd yn elfen arall o ymchwil ysgolheigaidd sy'n cael ei mynegi drwy wahanol ddulliau o arferion llenyddol a pherfformiadol, ond sydd hefyd yn estyn allan tuag at ymgysylltu athronyddol â syniadau delweddu, dychmygu a phrofi syniadau daearyddol, diwylliannol, emosiynol ac ysbrydol ynghylch gofod a lle. Gwneir proffil o gyfres o fyfyrwyr yn eu trydedd flwyddyn neu fyfyrwyr ôl-ddoethurol (lle mae gennym Gymrodyr Creadigol neu'u tebyg sydd newydd gwblhau astudiaethau PhD) er mwyn adnabod eangder a chyfoeth y sgiliau ymchwil a'r methodolegau sydd ar waith ar draws yr Athrofa ar lefel PhD. Bydd y prosiectau yn canolbwyntio ar ymarfer fel ymchwil ac ymarfer cyfansoddol a chreadigol o wahanol fathau er mwyn cynnig math gwahanol o brofiad i'r hyn a gynigir gan Ddulliau Darllen (MOR0510)/Ways of Reading (PGM0410) ond heb hepgor dulliau mwy traddodiadol, llenyddol yn gyfan gwbl.

16. Leadership for Researchers (PGM1910)

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno pwnc arweinyddiaeth i ymchwilwyr uwchraddedig ac i ddefnyddio syniadau am nodweddion, arddull ac ymddygiad arweinyddiaeth yng nghyd-destun y broses ymchwilio. Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio ar gyfer darparu cynnwys dewisol o fewn i'r rhaglen HY ar gyfer myfyrwyr ymchwil uwchraddedig. Pwrpas y modiwl hwn yw cyflwyno ymchwilwyr uwchraddedig i ystod a modelau arweinyddiaeth, defnyddio'r modelau hyn yng nghyd-destun rheoli ac arwain termau ymchwil, a rhoi'r cyfle i fyfyrwyr archwilio drwy arddull ac ymddygiad arwain dysgu drwy brofiad.

17. Political Research, Philosophy, Methods and Applications (IPM2120)

Nod y cwrs hwn yw gwneud myfyrwyr yn gyfarwydd â'r broses o wneud gwaith ymchwil uwch yn y gwyddorau gwleidyddol a chysylltiadau rhyngwladol. Mae'r cwrs yn cynnwys nifer o'r themâu a drafodir yn y rhaglen hyfforddiant ymchwil generig ac yn eu trafod o safbwynt y gwyddorau gwleidyddol. Bwriedir rhoi'r offerynnau angenrheidiol i fyfyrwyr fel y byddant yn deall ymchwil gwleidyddol empiraidd yn dda, yn ogystal â darparu cyfres soffistigedig o sgiliau ymchwil sy'n angenrheidiol er mwyn cwblhau ymchwil ar lefel uwchraddedig. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu addysg uwch drylwyr wrth ddefnyddio, gwerthfawrogi a deall ystod o ddulliau ymchwil sy'n berthnasol i ffenomena gwleidyddol. Mae'n trafod safbwyntiau meintiol ac ansoddol ac yn pwysleisio angenrheidrwydd y ddau fath o ddadansoddi.

18. Research Skills in Mathematics, Physics and Computer Science (PGM2010)

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno gwybodaeth eang i fyfyrwyr PhD o ystod o sgiliau sy'n benodol i'r pwnc y gallant eu defnyddio mewn amrywiaeth o ddi-ddordebau ymchwil. Bydd yn datblygu'n benodol allu myfyrwyr i wneud prosiectau ymchwil annibynnol. Bydd pob un o adrannau cyfansoddol yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg yn annog, darparu, a monitro hyfforddiant sy'n benodol i'r ddisgyblaeth ar gyfer myfyrwyr ymchwil yn yr Athrofa. Oherwydd natur amrywiol y gwaith ymchwil sy'n digwydd yn yr Athrofa – arbrolfol, rhifyddol a damcaniaethol, er enghraifft – mae ystod o weithgareddau wedi'u cynllunio, a dylai myfyrwyr ddewis y rhai sydd fwyaf perthnasol i'w gwaith.

19. Statistics for Experimental Scientists (PGM2110)

Nod y modiwl hwn yw darparu dealltwriaeth o egwyddorion cynllunio ymchwil, y gallu i ddadansoddi data yn ystadegol cyn dehongli'r hyn a ddadansoddwyd, sy'n hanfodol i'r Gwyddorau. Mae'r modiwl hwn yn datblygu egwyddorion ystadegol sylfaenol a drafodwyd ar lefel israddedig ac yn datblygu gweithdrefnau sy'n berthnasol i feysydd pwnc gwyddoniaeth. Mae'r modiwl yn cynnwys cyfres o unedau e-ddysgu hunangynhaliol a ddysgir yn gyfan gwbl drwy Blackboard ond gyda chymorth gweithdai dewisol i gynnig cymorth, yn ôl yr angen. Bydd craidd o unedau gorfodol yn atgyfnerthu elfennau ystadegau sylfaenol a bydd ystod ehangach o dechnegau uwch ar gael i fyfyrwyr ddewis o'u plith, yn unol â'u cynllun astudio a phwnc eu traethawd hir. Cyflwynir y technegau ystadegol gan ddefnyddio SPSS, pecyn ystadegol sy'n cael ei gefnogi'n llwyr gan y Brifysgol.

20. Research Seminar Skills in the Life Sciences (PGM2410)

Nod y modiwl hwn yw arfogi myfyrwyr PhD â gwybodaeth eang am ystod o sgiliau pwnc-benodol a fyddant yn gallu eu cymhwyso at amrywiaeth o ddi-ddordebau ymchwil. Yn benodol, bydd yn datblygu gallu myfyrwyr i werthfawrogi sut mae ymchwil yn berthnasol tu hwnt i'w maes astudio arbennig hwy. Mae IBERS yn cynnal cyfres o seminarau ymchwil wythnosol, sy'n cynnwys siaradwyr o Brifysgol Aberystwyth (o IBERS yn bennaf ond o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear hefyd) a siaradwyr allanol sy'n ymweld hefyd. Disgwylir i fyfyrwyr sy'n dilyn y modiwl hwn fynychu o leiaf 12 o'r seminarau hyn yn ystod semester 1 a 2 a chyflwyno crynodebau 300 gair ar gyfer chwech ohonynt.

21. Grants Development Workshops (PGM2510)

Mae'r modiwl hwn wedi'i anelu at ddatblygu grant ymchwil a bydd myfyrwyr yn dod i ddeall yr holl broses. Bydd y modiwl yn trafod y broses ysgrifennu, rhoi dealltwriaeth o'r cyrff cyllido, y gofynion o ran dogfennaeth a chyllid, a'r broses o asesu gan banel.

22. Reading and Writing Development Group (PGM2610)

Mae'r modiwl hwn yn rhoi profiad i'r myfyrwyr o ddarllen, trafod ac asesu cyhoeddiadau ac ymchwil yn feirniadol. Gall hefyd ymdrin ag ysgrifennu adolygiad beirniadol ar lenyddiaeth. Disgwylir i fyfyrwyr ymwneud a'r broses datblygu mewn ffordd gweithredol a chyfrannu at y modiwl a'r broses gwerthuso.

23. Theoretical Foundations of Research in Law and Criminology (PGM2710)

Mae'r modiwl hwn yn darparu trosolwg a thrafodaeth o graidd damcaniaethol Cyfraith a Throseddeg fel meysydd ar gyfer astudio ac ymchwil. Eglurir sut mae meysydd y gyfraith a 'gwyddoniaeth droseddol' wedi cael eu damcaniaethau a'u datblygu yn y disgwrs Gorllewinol a dangosir y prif dueddiadau yn y ddadl a'r drafodaeth feirniadol gyfoes. Wrth ddarparu dealltwriaeth ddofn o'r sylfeini a'r strwythurau damcaniaethol sydd wrth wraidd y meysydd hyn, bydd yn galluogi ymchwilwyr i werthfawrogi rôl a dulliau penodol y Gyfraith a Throseddeg fel disgyblaethau o fewn meysydd ehangach y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol.

24. Skills in Bioinformatics for Biologists (PGM2810)

Mae sgiliau biowybodeg wedi dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer myfyrwyr uwchraddedig ac mae myfyrwyr uwchraddedig IBERS wedi codi biowybodeg fel maes lle mae angen mwy o hyfforddiant. Mae'r modiwl hwn yn mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu modiwl Biowybodeg i fyfyrwyr uwchraddedig sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddewis y pwnc sydd fwyaf perthnasol iddynt hwy o ddewis o fodiwlau sy'n bodoli eisoes.